# Crynodeb Cwricwlwm i Gymru

Ymestyn am y Gorau Gyda'n Gilydd

# Ein gweledigaeth

Yn Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen…

Hyrwyddwn ethos bositif ac awyrgylch cyfeillgar wrth ymddiried, parchu a chyd-weithredu gyda'n gilydd.

Crëwn brofiadau cynhwysol er mwyn i'n dysgwyr ymfalchïo yn eu Cymreictod, eu gwerthoedd a hunaniaeth, sy'n llunio eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach.

Datblygwn hunanddisgyblaeth a meithrin dealltwriaeth ein dysgwyr o'u hawliau a hawliau pobl eraill.

Cefnogwn ein dysgwyr i gaffael y wybodaeth a'r sgiliau sydd angen arnynt i gyflawni eu llawn potensial.

Pwysleisiwn ar gefnogi iechyd a lles ein dysgwyr trwy gydnabod amgylchiadau penodol pob un wrth iddynt dyfu'n hŷn yn y Gymru gyfoes.




Ysgol Gynradd Gymraeg Gellionnen

# Ein gwerthoedd

Cymru a Chymreictod

Parch a chyfrifoldeb

Hapusrwydd a mwynhad

Gofal a lles

Dygnwch a hyder

Cymuned a chynefin

Mentro ac arloesi

Cymorth a chydweithio


# Ein cwricwlwm cynhwysol

Bydd ein cwricwlwm yn codi dyheadau pob dysgwr. Fel ysgol rydym wedi ystyried sut y bydd pob dysgwr yn cael eu cefnogi ac i wireddu'r pedwar diben ac i symud ymlaen. Mae addysgu a dysgu da yn rhoi ***her*** i'r ***holl*** ddysgwyr drwy eu hannog i gydnabod pwysigrwydd ymdrechu'n barhaus i gwrdd â disgwyliadau sy'n uchel ond o fewn eu cyrraedd.

Rydym yn cydnabod bod pob disgybl yn dod i'r ysgol ar wahanol gyfnodau o ddatblygiad a chyda gwahanol anghenion. Tra bod llawer o ffactorau yn cyfrannu at yr ystod o anawsterau a brofir gan rai plant, credwn y gellir gwneud llawer i'w goresgyn wrth i rieni, athrawon a disgyblion gydweithio.

# Y Pedwar Diben

## Mae'r pedwar diben yn fan cychwyn wrth ddylunio cwricwlwm ysgol. Nod yr ysgol yw i gefnogi ein dysgwyr i ddod yn:







**Dysgwyr uchelgeisiol, galluog sy'n:**

- gosod safonau uchel i'w hunain, yn edrych am ac yn mwynhau her;
- adeiladu sylfaen o wybodaeth ac yn meddu'r sgiliau i gysylltu a chymhwyso'r wybodaeth honno o fewn testunau gwahanol;
- holi ac yn mwynhau datrys problemau;
- gallu cyfathrebu'n effeithiol mewn gwahanol ffurfiau a lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg;
- gallu esbonio'r syniadau a'r cysyniadau maen nhw'n eu dysgu;
- yn gallu defnyddio rhif yn effeithiol mewn gwahanol gyd-destunau;
- deall sut i ddehongli data a chymhwyso cysyniadau mathemategol;
- defnyddio technolegau digidol yn greadigol i gyfathrebu, darganfod a dadansoddi gwybodaeth;
- ymgymryd ymchwiliadau ac yn gwerthuso'n feirniadol yr hyn maen nhw'n ei ddarganfod ac yn barod i ddysgu trwy gydol eu bywydau.

**Cyfranwyr mentrus, creadigol sy'n:**

- cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion;
- meddwl mewn ffordd greadigol i ail-lunio a datrys problemau;
- nodi ac yn cymryd mantais o gyfleoedd;
- mentro'n bwyllog;
- medru arwain a chyfrannu i dîm mewn ffordd effeithiol a chyfrifol;
- mynegi eu syniadau ac emosiynau trwy gyfryngau gwahanol;
- rhoi eu hegni a'u sgiliau fel y gall eraill elwa ac yn barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith.




**Unigolion iach, hyderus sy'n:**

- meddu ar werthoedd cryf ac yn sefydlu eu credoau moesol ac ysbrydol;
- adeiladu eu lles meddyliol ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, cadernid ac empathi;
- cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau bob dydd;
- gwybod sut i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r gefnogaeth i gadw'n ddiogel ac iach;
- yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol;
- gwneud penderfyniadau rhesymol yn eu ffordd o fyw, ac yn medru rheoli risg meddu ar yr hyder i gymryd rhan mewn perfformiadau;
- ffurfio perthnasau cadarnhaol yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch at ei gilydd
- wynebu ac yn goresgyn heriau;
- meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth i reoli eu bywydau bob dydd mor annibynnol ag sy'n bosibl;
- barod i arwain bywydau cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.

**Dinasyddion moesol, gwybodus sy'n:**

- darganfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth lunio barn;
- ymgysylltu â materion cyfoes yn ôl eu gwybodaeth a'u gwerthoedd personol;
- ymarfer a deall eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd;
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau a gweithredu;
- wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd, yn awr ac yn y gorffennol;
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas;
- yn dangos eu hymrwymiad i gynaladwyaeth y blaned ac yn barod i fod yn ddinasyddion Cymru a'r byd.





# Datganiadau o’r Hyn Sy’n Bwysig

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd a phrofiadau i ddatblygu’r cysyniadau, gwybodaeth a sgiliau allweddol fel y’u disgrifir yn y datganiadau o’r hyn sy’n bwysig ac yn unol â’r cod Datganiadau o’r Hyn sy’n Bwysig.


Yr hyn sy'n bwysig.docx


# Y 6 Maes Dysgu a Phrofiad

Bydd ein cwricwlwm yn darparu cyfleoedd dysgu trwy’r 6 maes dysgu a phrofiad:

- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Mathemateg a Rhifedd
- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg
- Y Dyniaethau
- Iechyd a Lles

# Dysgu, Dilyniant ac Asesu




Diben ein cwricwlwm yw cefnogi dysgu trwy ddarparu cyfleoedd a phrofiadau dysgu sydd wedi eu gwreiddio ar yr egwyddorion addysgegol.

Fe fydd cynnydd ystyrlon yn cael ei wireddu drwy addysgu a dysgu effeithiol a bydd ein dysgwyr yn gwella a chymhwyso eu sgiliau a'u gwybodaeth.

Yn ategol i hyn, canolbwyntir ein cwricwlwm ar ddeall beth mae'n ei olygu i wneud cynnydd mewn maes neu ddisgyblaeth benodol a sut y dylai dysgwyr ddyfnhau ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth, eu sgiliau a'u galluoedd, a'u priodoleddau a'u tueddiadau, ac mae'n cael ei lywio gan y Cod Cynnydd. Mae hyn yn ei dro yn cefnogi ein hymagwedd at asesu, a'i ddiben yw llywio'r cynllunio ar gyfer dysgu yn y dyfodol. Cefnogir cynnydd ac asesir pob dysgwr yn barhaus.

Bydd cydlyniad mewn Dysgu, Dilyniant ac Asesu yn cael ei ddatblygu trwy bolisi, cynllunio tymor hir, canolig a byr yn ogystal â chyd-ddealltwriaeth o ddilyniant mewn dysgu ar draws ysgolion y clwstwr. Bydd y Camau Cynnydd yn cael eu pennu yn 5, 8, 11, 14 a 16 oed a byddant i'w gweld ar ffurf disgrifiadau dysgu a fydd yn berthnasol yn fras i'r disgwyliadau ar yr adegau hynny. Bydd y rhain yn helpu dysgwyr, athrawon, rhieni a gofalwyr i ddeall os yw'r cynnydd sy'n cael ei wneud yn briodol.

# Cymraeg, Saesneg ac Amlieithrwydd

Fel ysgol cyfrwng Cymraeg bydd dysgu yn digwydd trwy'r Gymraeg hyd at 7 oed. Trochi iaith yw ymagwedd yr ysgol at gaffael iaith o'r Meithrin. Bydd Cymraeg a Saesneg yn cael eu haddysgu o flwyddyn 3 ymlaen.

Bydd y Siarter Iaith ac amlieithrwydd yn treiddio drwy'r meysydd.

# Sgiliau Traws-gwricwlaidd

Datblyga ein cwricwlwm y sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol sef **llythrennedd**, **rhifedd** a **chymhwysedd digidol**. Caniateir ein cwricwlwm i ddysgwyr ddatblygu cymhwysedd a gallu yn y sgiliau yma a'u ehangu a'u cymhwyso ar draws pob maes. Bydd dysgwyr yn cael cyfleooedd ar draws y cwricwlwm i:

ddatblygu sgiliau gwrando, darllen ac ysgrifennu;

ddefnyddio rhifau a datrys problemau sefyllfaoedd bywyd go iawn;

ddefnyddio ystod o dechnolegau yn hyderus i'w helpu i weithredu a chyfathrebu'n effeithiol a gwneud synnwyr o'r byd.

# Hawliau Plant - CCUHP

Bydd ein hysgol yn hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, neu'r CCUHP.

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

| Ionawr | Erthygl 6: Ein hawl i fywyd ac i dyfu i fod yn iach. | Gorffennaf | Erthygl 16: Ein hawl i breifatrwydd. |
|---|---|---|---|
| Chwefror | Erthygl 12: Ein hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd ac i rywun wrando arnoch. | Awst | Erthygl 15: Ein hawl i gwrdd â ffrindiau ac i ymuno â grwpiau a chlybiau. |
| Mawrth | Erthygl 7: Ein hawl i enw a chenedligrwydd | Medi | Erthygl 28: Ein hawl i ddysgu a mynd i'r ysgol. |
| Ebrill | Erthygl 14: Ein hawl i ddilyn crefydd ein hun. | Hydref | Erthygl 24: Ein hawl i fwyd da a dŵr ac i weld meddyg. |
| Mai | Erthygl 19: Ein hawl i beidio cael ein niweidio a chael gofal a chadw'n ddiogel. | Tachwedd | Erthygl 29: Ein hawl i fod y gorau y gallwn fod. |
| Mehefin | Erthygl 31: Ein hawl i ymlacio ac i chwarae. | Rhagfyr | Erthygl 27: Ein hawl i safon dda o fyw. |

# ACRh – Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae ein cwricwlwm ysgol yn cynnwys y canllawiau sydd yn y Côd ACRh.

Bydd gan ein darpariaeth ACRh rôl gadarnhaol yn addysg ein dysgwyr a bydd yn chwarae rhan hanfodol wrth eu cefnogi i wireddu'r 4 Diben fel rhan o ddull ysgol gyfan.

Bydd yn helpu dysgwyr i ffurfio a chynnal amrywiaeth, i gyd yn seiliedig ar gyd-ymddiriedaeth a pharch. Mae'r perthnasoedd hyn yn hanfodol i ddatblygiad lles emosiynol, gwydnwch ac empathi.

Nid oes hawl gan riant i ofyn i blentyn gael ei dynnu'n ôl o ACRh yn y Cwricwlwm i Gymru.

# CGM – Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg

Bydd Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn ofyniad statudol o fewn Cwricwlwm i Gymru i bob dysgwr rhwng 3 a 16 oed.

Nid oes hawl gan riant i wneud cais i dynnu plentyn o CGM yn y Cwricwlwm i Gymru.

Gan fod CGM yn bwnc a bennir yn lleol, mae'r maes llafur cytun yn nodi'r hyn y dylid ei addysgu mewn CGM o fewn yr awdurdod lleol a bydd ein cwricwlwm yn adlewyrchu'r canllawiau hyn.

# Adolygu a Mireinio

Bydd ein cwricwlwm ysgol yn cael ei adolygu'n barhaus er mwyn ymateb i ymholiadau proffesiynol, anghenion cyfnewidiol dysgwyr a chyd-destunau ac anghenion cymdeithasol.

Bydd yr adolygiadau'n ystyried barn rhanddeiliaid ac yn cael eu cymeradwyo gan y Corff Llywodraethol.

Byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'n cwricwlwm ac yn adolygu'r crynodeb os gwneir newidiadau i'r cwricwlwm yn ystod y broses adolygu.